

YMARFER 9: Sylwadau

The Commonwealth Games, or Friendly Games, as they are fondly known¹, is always an exciting and memorable time for members of the Commonwealth family. They will experience all things games-related in the space of a few short weeks² – from living in the village, to making their debut on the field, court, track or pool.

These Games are unlike any other major sporting event, in that they bring together the Commonwealth family whose diverse faiths, races, languages, cultures and traditions make up 30 per cent of the world's population³. Our love of sport and friendly competition unites us, but the Commonwealth Games leaves a lasting legacy long after the last medal has been awarded⁴. In many instances, it is what we take away from this event that has the potential to be a significant catalyst for change and growth in all societies.⁵

This year's Commonwealth Games, for the first time since they began in 1930, will award an equal number of medals to both women and men⁶, highlighting the Commonwealth's commitment to equality and inclusion, and serving as an international platform to drive change and promote gender equality. We are currently in a golden era for women's sport, and these women are ambassadors – role models who inspire change across the community⁷.

As a cornerstone of the Commonwealth itself, our dynamic sporting movement⁸ – driven by its values of Humanity, Equality and Destiny – has a key role to play in an energised, engaged and active Commonwealth of Nations and Territories⁹.

[addasiad o wefan y *Commonwealth Games Federation*]

1. Cystrawen ...as they are fondly known...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. ...*fel y'u hadnabyddir yn wresog...*
2. ...*fel y'u gelwir yn gu...*
3. ...*fel y cyfeirir atynt yn gariadus...*
4. ...*yn ôl eu henw hoffus...*
5. ...*fel y cyfeirir yn annwyl atynt...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. ...*fel y mae'r rhan fwyaf yn hoffi eu galw...*
2. ...*i roi'r enw poblogaidd arnynt...*

SYLW:

1. Nid oes yr un o'r cynigion aflwyddiannus yn taro deuddeg. Dyma enghreifftiau sy'n dangos yr angen am gamu'n ôl a meddwl am ystyr ymadrodd yn hytrach na'i gyfieithu'n slafaidd. Cymharwch hwy â'r enghreifftiau llwyddiannus sydd wedi cyfleu ystyr y gwreiddiol mewn ffordd sy'n dilyn patrwm naturiol y Gymraeg.

2. **Cystrawen/
Ystyr**

...in the space of a few short weeks...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...o fewn ychydig wythnosau byr...*
2. *...o fewn cyfnod o ychydig wythnosau byr...*
3. *Mewn ychydig wythnosau byr...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...dros gyfnod o ychydig wythnosau...*

SYLW:

1. Sylwch fel y mae'r tair enghraifft aflwyddiannus uchod wedi cyfieithu'r ymadrodd Saesneg '**few short weeks**' yn llythrennol. Nid yw hynny'n gweithio yn Gymraeg. Nid yw'r wythnosau'n rhai byr; y cyfnod sy'n fyr. Dyma enghraifft sy'n dangos mor bwysig yw meddwl am ystyr ymadrodd ac yna ei fynegi yn Gymraeg yn y ffordd fwyaf naturiol bosibl.

3. **Ystyr/
Cystrawen**

...the Commonwealth family whose diverse faiths, races, languages, cultures and traditions make up 30 percent of the world's population.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *... mae'r Gemau yma yn dwyn ynghyd deulu'r Gymanwlad, sy'n cyfansoddi 30 y cant o boblogaeth y byd, gyda'u crefyddau, hiliau, ieithoedd, diwylliannau a'u traddodiadauol amrywiol.*
2. *... teulu sydd â chanddynt ffydd, hil, iaith, diwylliant a thraddodiadau sy'n cyfrannu at 30 y cant o boblogaeth y byd.*
3. *...yn dod â theulu'r Gymanwlad ynghyd sydd â'u ffydd amrywiol, hilion, ieithoedd, diwylliannau a thraddodiadau yn gwneud fyny hyd at 30 y cant o boblogaeth y byd.*
4. *...yn dod â theulu'r Gymanwlad, y mae ei ffydd, hiliau, ieithoedd, diwylliannau a thraddodiadau amrywiol yn cyfrif am 30 y cant o boblogaeth y byd, at ei gilydd.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...dwyn ynghyd deulu'r Gymanwlad y mae ei grefyddau, ei hiliau, ei ieithoedd, ei ddiwylliannau a'i draddodiadau amrywiol yn cyfrif am 30 y cant o boblogaeth y byd.*

SYLWADAU:

1. Sylwch ar y modd y mae'r tair enghraifft aflwyddiannus uchod

wedi cymylu ystyr y darn yn llwyr. Dweud y mae'r gwreiddiol fod teulu'r Gymanwlad yn 30 y cant o boblogaeth y byd. Nid yw'r teulu hwnnw yn *cyfansoddi 30 y cant*, fel yn Afl.1, nac yn *cyfrannu at 30 y cant* fel yn Afl.2, nac *yn gwneud fyny hyd at 30 y cant* fel yn Afl.3. Cyfieithiad slafaidd yw *gwneud fyny* ac nid yw'n dderbyniol

2. Mae Afl.3 yn dangos mor bwysig yw ystyried grym ansoddair mewn rhes o enwau. Yn yr achos hwn roedd yn glir bod **'diverse'** yn cyfeirio at bob enw yn y cymal, ac nid at **'faiths'** yn unig. Mae Afl.2 wedi hepgor yr ansoddair yn llwyr. Gyda llaw, *crefydd(au)* yw'r cyfieithiad priodol o **'faith(s)'** yn y cyd-destun hwn. Mae ystyr gwahanol i *ffydd*.

3. Sylwch ar yr ymadrodd *teulu sydd â chanddynt* yn Afl.2. Pan fydd arddodiad yn dilyn 'a', nid oes angen acen grom ac nid oes angen *sydd* ychwaith. Y ffurf gywir yw 'teulu a chanddynt'. Gweler *Y Golygiadur*, Rhiannon Ifans, t.258.

4. Mae'n bwysig, wrth gyfieithu brawddegau aml-gymalog, eich bod yn ystyried pellter cymalau perthynol oddi wrth ei gilydd. Yn Afl.4, perthyn i'r cymal cyntaf, *dod â theulu'r Gymanwlad* y mae'r cymal olaf *at ei gilydd*. Oherwydd y pellter rhyngddynt mae fel petai'n perthyn i'r cymal yn union o'i flaen ac yn cyfleu 'ar y cyfan' neu 'yn gyffredinol', sy'n gwbl gamarweiniol. Awgrym: '...yn dod â theulu'r Gymanwlad at ei gilydd – teulu y mae ei ffydd, hiliau, ieithoedd, diwylliannau a thraddodiadau amrywiol yn cyfrif am 30 y cant o boblogaeth y byd'.

4. Cywair

...the Commonwealth Games leaves a lasting legacy long after the last medal has been awarded.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...mae Gemau'r Gymanwlad yn gadael etifeddiaeth hirdymor, ymhell wedi i'r fedal olaf gael ei wobrwyo.*
2. *...mae Gemau'r Gymanwlad yn gadael rhywbeth pwysig ar ei ôl sy'n aros ymhell wedi i'r medal olaf gael ei ddosbarthu.*
3. *...mae Gemau'r Gymanwlad yn gadael ôl troed am flynyddoedd lawer wedi i'r fedal olaf gael ei dyfarnu.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...mae Gemau'r Gymanwlad yn gadael gwaddol ymhell wedi i'r fedal olaf gael ei chyflwyno.*

SYLWADAU:

1. Sylwch ar y gwallau treiglo mewn cysylltiad â 'medal' yn Afl.1 ac Afl.2. Enw benywaidd yw 'medal', nid gwrywaidd.
2. Mae dewis *rhywbeth pwysig* yn Afl.2 ac *ôl troed* yn Afl.3 i gyfieithu **'legacy'** yn anaddas ac yn rhyfedd. Y term Cymraeg priodol yw *gwaddol*. Mae ychydig bach o wahaniaeth yn ystyron *etifeddiaeth* a *gwaddol*. 'Etifeddiaeth' yw'r hyn a etifeddir gan berson neu sefydliad, 'gwaddol' yw'r hyn a adewir yn barhaol i berson neu i sefydliad.

3. Ystyriwch hefyd yr amrywiol ddulliau o gyfieithu 'awarded' yn y tair enghraifft uchod. Gwobrwyo person a wneir, ond cyflwyno neu roi medal. Nid yw *dosbarthu* yn taro deuddeg.

5. Cystrawen

In many instances, it is what we take away from this event that has the potential to be a significant catalyst for change and growth in all societies

Cyfieithu Aflwyddiannus:

1. *Mewn llawer o achlysuron, mae'r hyn a gymerwn allan o'r digwyddiad yw'r hyn sydd efo'r potensial i fod yn gatalydd arwyddocaol ar gyfer newid a thwf yn yr holl gymdeithasau.*
2. *Mewn llawer ffordd, yr hyn yr ydym yn ei gymryd i ffwrdd o'r digwyddiad hwn yw potensial catalydd sylweddol ar gyfer newid a thyfiant i bob cymdeithas.*
3. *Mewn sawl achos, yr hyn yr ydym yn ei gymryd o'r digwyddiad yma sydd efo'r potensial i fod yn gatalydd arwyddocaol ar gyfer newid a thwf ymhob cymdeithas.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *I bob pwrpas, mae gan yr hyn rydym yn ei ddysgu o'r digwyddiad hwn y potensial i fod yn gatalydd sylweddol ar gyfer newid a thwf ym mhob cymdeithas.*
2. *Mewn sawl achos, mae potensial i'r hyn a gawn yn sgil y digwyddiad hwn fod yn gatalydd sylweddol ar gyfer newid a thwf ym mhob cymdeithas.*

SYLWADAU:

1. Aeth Afl.1 ac Afl.2 i bydew du wrth geisio cyfieithu'r frawddeg hon. Mae cynnig Afl.3 yn well, ond nid yw yntau, ychwaith, wedi llwyddo i gyfleu'r ystyr yn iawn. Dylid pwylllo a meddwl am ystyr y Saesneg, ac yna meddwl sut orau i gyfleu'r ystyr hwnnw yn Gymraeg. Sylwer fel y mae'r ddwy enghraifft lwyddiannus wedi ymryddhau o batrymau'r iaith wreiddiol er mwyn cyfleu'r neges yn effeithiol yn yr iaith darged.
2. Sylwch ar y cyfieithiadau slafaidd o 'take away from' yn y tair enghraifft aflwyddiannus uchod.
3. Yn Afl.3, mae *efo* yn rhy anffurfiol ar gyfer y darn. Ceisiwch ei osgoi oni bai eich bod yn cyfieithu darn llafar ei naws.

6. Cystrawen

This year's Commonwealth Games, for the first time since they began in 1930, will award an equal number of medals to both women and men...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Am y tro cyntaf ers iddynt gychwyn yn 1930, ceir yr un nifer o fedalau eu gwobrwyo i ddynion a merched yng Ngemau'r Gymanwlad flwyddyn yma...*
2. *Am y tro cyntaf ers iddynt ddechrau yn 1930, bydd Gemau'r Gymanwlad y flwyddyn hon yn gwobrwyo nifer hafal o fedalau i*

ddynion a merched...

3. *Eleni bydd Gemau'r Gymanwlad, am y tro cyntaf ers iddynt ddechrau yn 1930, yn dyfarnu rhif cyfartal o fedalau i ddynion a merched ill dau...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Yng Ngemau'r Gymanwlad eleni, a hynny am y tro cyntaf ers iddynt gychwyn yn 1930, cyflwynir yr un nifer o fedalau i ddynion a menywod.*

SYLWADAU:

1. Sylwch ar ffurf wallus y ferf yn Afl.1. Ffurf amheronol dyfodol yw 'ceir', a ddefnyddir pan nad oes gwybodaeth am berson nac amser. Ni ellir dweud *ceir...eu gwobrwyo*. Y ffurf gywir fyddai 'caiff...eu gwobrwyo'. Mae rhagor o wybodaeth am ferfau amheronol a'u defnydd yn *Y Golygiadur*, Rhiannon Ifans, t.327, ac yn *Gramadeg y Gymraeg*, Peter Wynn Thomas, tt.27 ac 120. Er cymhariaeth, sylwch ar y defnydd cywir o'r ferf amheronol *cyflwynir* yn yr enghraifft lwyddiannus.

2. Mae angen y fannod o flaen *flwyddyn*. Er nad yw 'y flwyddyn yma' neu 'y flwyddyn hon' yn anghywir, ystyriwch cymaint yn fwy naturiol fyddai defnyddio'r term Cymraeg *eleni*.

3. Fel y soniwyd eisoes yn Awgrym 4, gwobrwyo person a wneir ond rhoi neu gyflwyno medal.

4. Nid yw *hafal* (Afl.2) na *rhif* (Afl.3) yn briodol. Yng nghyd-destun mathemategol y defnyddir 'hafal' yn bennaf. Mae 'rhif' fel arfer yn cyfeirio at ffigur, e.e. 'rhif y dudalen yn y llyfr', a 'nifer' at swm neu gyfanswm e.e. 'nifer y tudalennau yn y llyfr'. 'Nifer gyfartal' yw'r ymadrodd cywir yn y cyd-destun hwn.

5. Nid yw'r defnydd o'r rhagenw rhifol *ill* yn gywir yn Afl.3 oherwydd bod 'dynion a merched' yn fwy na dau o ran nifer. Gweler *Gramadeg y Gymraeg*, Peter Wynn Thomas, t.256. Awgrym 'fel ei gilydd'.

6. Yn yr enghraifft o gyfieithu llwyddiannus, sylwch fel y mae'r frawddeg yn llifo'n fwy ystwyth yn Gymraeg ar ôl newid ei threfn.

7. Cywair/ Cystrawen

...and these women are ambassadors – role models who inspire change across the community.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...mae'r merched rhain yn llysgenhadon – ffigurau edmygus sy'n ysbrydoli newid ar draws cymdeithas.*
2. *...mae'r merched hyn yn lys-genhadon – yn rhywun y gellid edrych i fyny atynt, sy'n ysbrydoli newid ar draws y gymuned.*
3. *...mae'r merched hyn yn genhadon – modelau rôl sy'n symblu newid ar draws y gymuned.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...mae'r merched hyn yn llysgenhadon, ac yn ddelfryd o ymddygiad sy'n ysbrydoli newid ar draws y gymuned.*

SYLWADAU:

1. Mae gwendidau yng nghywair y tair enghraifft aflwyddiannus uchod. Nid yw *ffigurau edmygus* yn Afl.1 yn cyfleu 'role models' ac mae *rhywun y gellid edrych i fyny atynt* yn Afl.2 yn gwbl amhriodol, gan ei fod yn newid yr ystyr ac yn gyfieithiad slafaidd. Dewisodd Afl.3 y term *cenhadon* ('missionaries') yn hytrach na *llysgenhadon* ('ambassadors') ac nid yw'n taro deuddeg yn y cyd-destun dan sylw.

2. Sylwer ar y gwallau cystrawennol a theipio yn Afl.1 ac Afl.2:

- Afl.1 *merched rhain*. Dyma ffurf dafodieithol ac ansafonol. Y rhagenw priodol yw 'hyn'.
- Afl.2 *yn lys-genhadon* - nid yw 'll' yn treiglo ar ôl 'yn' nac 'n'. Gweler *Y Golygiadur*, Rhiannon Ifans, t.376. Nid oes angen y cysylltnod ychwaith. Felly *yn llysgenhadon* fyddai'n gywir.
- Mae Afl.2 wedi camdeipio *ysbydoli* hefyd. Dyma rywbeth y byddai gwirydd sillafu wedi'i amlygu pe byddai wedi cael ei ddefnyddio.

3. Nid yw *cymdeithas* yn Afl.1 yn briodol. Am y gymuned y sonnir, sef cymuned y Gymanwlad.

8. Cywair

dynamic sporting movement

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *symudiad chwaraeon dynamig*
2. *ymgyrch chwaraeon ddynamig*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *mudiad chwaraeon deinamig*
2. *mudiad chwaraeon dynamig*

SYLW:

1. Dyma enghraifft arall o gyfieithu slafaidd heb feddwl am ystyr y gair 'movement' yn y cyd-destun hwn, gyda'r canlyniad nad yw'r cyfieithiad yn gwneud synnwyr. Nid *ymgyrch* ('campaign') yw Gemau'r Gymanwlad, ac nid *symudiad* (y weithred neu'r broses o symud) ydyw ychwaith.

9. Cystrawen/ Cywair

...has a key role to play in an energised, engaged and active Commonwealth of Nations and Territories.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...efo rhan allweddol i chwarae mewn Cymanwlad o Wledydd a Thiriogaethau egnïol, sydd eisiau cymryd rhan ac sy'n weithgar.*
2. *...â rôl allweddol i'w chwarae mewn Cymanwlad egnioledig ac actif o Genhedloedd a Thiroedd.*
3. *...rôl allweddol i'w chwarae yng Nghymanwlad y Cenhedloedd a'r Tiriogaethau fel corff egnïol, ymrwymedig a bywiog.*
4. *...ran allweddol i'w chwarae mewn Cymanwlad o Wledydd a*

Thiriogaethau sydd wedi eu hymgysylltu, ac sy'n weithgar ac egniol.

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...ran allweddol i'w chwarae mewn Cymanwlad o Genhedloedd a Thiriogaethau sy'n llawn bywyd, sy'n ymwneud â phobl o bob math, ac sy'n weithgar.*

SYLWADAU:

1. Mae'r disgrifiad aml-ansoddeiriog o'r Gymanwlad yn heriol iawn ac yn gyfle i archwilio gallu cyfieithydd i ddeall a chyfleu ystyr. Yr hyn sydd angen ei wneud yw pwylllo a meddwl am ystyr y gair Saesneg yng nghyd-destun y darn cyfan, ac yna meddwl sut orau i gyfleu'r ystyr hwnnw yn Gymraeg. Rhaid ymryddhau o batrymau'r iaith wreiddiol.

2. Ystyr '**energised**' yma yw bod y Gymanwlad wedi'i bywiogi gan gyfraniadau o bob math, gan gynnwys ei mudiad chwaraeon. Ystyr cwbl wahanol sydd i *egniol* ('energetic'), ac mae *egnioledig* yn air dieithr i lawer.

3. Beth am '**engaged**'? Dyma air cyfarwydd iawn y dyddiau hyn, sy'n cael ei ddefnyddio yng nghyd-destun ymwneud â phobl, neu pan fydd angen ennyn eu diddordeb mewn rhyw faes neu'i gilydd. Ond cofier bod y paragraffau blaenorol yn cyfeirio at y bobl amrywiol sy'n byw yn y Gymanwlad ac at ei hymrwymiad i gydraddoldeb a chynhwysiant. Mae'r Gymanwlad yn ymwneud â phobl o bob math, ac nid, fel yn Afl.4, yn gasgliad o *Wledydd a Thiriogaethau sydd wedi eu hymgysylltu*. Nid yw *ymrwymedig* ('committed') yn addas, nac ychwaith *sydd eisiau cymryd rhan* (Afl.1). Mae Afl.2 wedi hepgor y term yn llwyr.

4. Mae ystyr '**active**' yn glir, sef 'gweithredol', neu *gweithgar*. Nid yw *bywiog* nac *actif* yn briodol.

CYFFREDINOL

Cafwyd llawer o wallau sillafu a gwallau teipio:

Cywirdeb

- cau (yn lle 'cae')
- cyffroes
- chwaraeuon
- ddigwddiadau
- gweledydd (yn lle 'gwledydd')
- Gymananwlad
- yng nglwm
- ysbydoli

SYLW:

Gan mai gwallau teipio yw llawer o'r rhain, byddai golygu gofalus a defnyddio gwirydd sillafu wedi amlygu'r mwyafrif o'r rhain.